Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

29.01.26

Annwyl Rieni,

**Cyfarfod Rhieni efo arolygwyr ESTYN 02/02/26-** Cofiwch am gyfarfod ESTYN efo rhieni Ysgol Pen Barras nos Lun nesaf, (2il Chwefror, 2026) am 3.30yh yn neuadd yr ysgol. Dyma eich cyfle i rannu barn a sylwadau ar ein hysgol. Bydd y cyfarfod yn para oddeutu hanner awr. Mae cyfieithydd ar gael yn ystod y cyfarfod gan mai drwy'r Gymraeg fydd y cyfarfod. Rydym wedi trefnu ystafell ar gyfer gofal plant i'r rhai hynny fydd yn bresennol efo plant. Da fyddai gweld cynrychiolaeth dda o blith rieni'r ysgol.

**Rupert's Rainbow- Yfory (30/01/26)**- Byddwn yn cefnogi elusen Rupert's Rainbow wrth gynnal diwrnod di-wisg ysgol. Caiff plant wisgo dillad eu hunain a/neu mewn lliwiau'r enfys. Gall blant gyfrannu £1 a bydd yr arian oll yn mynd i gefnogi'r plentyn lleol a'i deulu. Diolch o flaen llaw.

**Pencampwyr Rygbi'r Urdd- Rhanbarth Dinbych-** Llongyfarchiadau mawr i dîm bechgyn Blwyddyn 6 yr ysgol am ddod yn fuddugol heddiw yn y gystadleuaeth yng Nghlwb Rygbi Rhuthun. Byddent yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Ddinbych yn y rowndiau terfynol yn Aberystwyth ym mis Mehefin. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Gwil Edmunds gafodd ei enwi yn chwaraewr y twrnamaint. Gwych iawn hogiau!

**Taith breswyl Blwyddyn 6 i Gaerdydd**- Dymuniadau gorau i blant Blwyddyn 6 fydd yn mynd ar daith breswyl i Gaerdydd (yn rhad ac am ddim) wythnos nesaf (Dydd Mawrth a Mercher) ar gyfer recordio rhaglen Tekkers ar gyfer S4C. Mwynhewch y profiad!

**Ymarferion yr Urdd-** O ganlyniad i flwyddyn 6 yn absennol dydd Mawrth a Mercher nesaf, yn anffodus, ni fydd ymarfer côr nos Fawrth. Bydd rhagor o fanylion am ymarferion eraill ar gyfer yr Urdd yn cael eu rhannu gan staff Unedau.

**Prosiect Orielodl**- Cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 modd i fyw wrth beintio a dylunio gwaith celf arbennig gyda Rhys 'Orielodl'. Y bwriad yw arddangos y gwaith celf newydd yn nerbynfa'r ysgol yn fuan iawn.

**Datblygu'r Ardal Tu Allan**- Llawer o ddiolch i Mr Iwan Edwards a Mr Richard Kellet am weithio drwy'r dydd heddiw yn oerfel yr ardd! Bu plant y Cyngor Eco yn cydweithio gyda nhw i gynllunio gweithgareddau garddio'r flwyddyn ac i dwtio a thacluso yn barod at y Gwanwyn.

Yn gywir,

**Dyfan Phillips**
PENNAETH
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*29.01.26*

***Dear Parents,***

***Parents' Meeting with ESTYN Inspectors – 02/02/26*** *A reminder about the ESTYN meeting with parents of Ysgol Pen Barras next Monday evening (2nd February 2026) at 3.30pm in the school hall. This is your opportunity to share your views and comments about our school. The meeting will last approximately half an hour. A translator will be available during the meeting as it will be conducted through the medium of Welsh. We have arranged staffing and a room / childcare for those who will be attending with children. It would be great to see good representation from the school's parents.*

***Rupert's Rainbow – Tomorrow (30/01/26)-*** *We will be supporting the Rupert's Rainbow charity by holding a non-uniform day. Children may wear their own clothes and/or rainbow colours. Children may contribute £1 and all money raised will go towards supporting the local child and their family. Thank you in advance.*

***Urdd Year 5/6 Regional Rugby Success*** *–Huge congratulations to the school's Year 6 boys' team for winning today's tournament at Ruthin Rugby Club. They will now go on to represent Denbighshire in the finals in Aberystwyth in June. Congratulations also to Gwil Edmunds, who was named player of the tournament. Excellent work, boys!*

***Year 6 Residential Trip to Cardiff****- Best wishes to the Year 6 pupils who will be going on a residential trip to Cardiff (free of charge) next week (Tuesday and Wednesday) to record the programme Tekkers for S4C. Enjoy the experience!*

***Next weeks' Urdd Practices****- As a result of Year 6 being away next Tuesday and Wednesday, unfortunately there will be no choir practice on Tuesday evening. Further details about other Urdd practices will be shared by Unit staff.*

***Orielodl Project****- Year 5 and 6 pupils had a fantastic time painting and designing a bespoke mural for Ysgol Pen Barras with Rhys 'Orielodl'. We hope to display the new artwork in the school reception area very soon.*

***Developing the Outdoor Area****- Many thanks to Mr Iwan Edwards and Mr Richard Kellet for working all day todayoutisde in this cold weather! The Eco Council pupils worked with them to plan the year's gardening activities and to tidy and prepare the area ready for Spring.*

*Yours sincerely,*

***Dyfan Phillips***
*HEADTEACHER*
*Ysgol Pen Barras*